# DWY O

# GERDDI

## NEWYDDION.

SALISBURY LIBRARY ... WALES & MON.

I. Cerdd yn rhoi Hanes Geneth yr hon oedd Ferch i Wr bonheddig, ac yn Aeres i'w Ystât, a newidwyd gan ei Mam ynghyfraith am Gorphyn distris Yw chanu ar, DRIBAN, ar ei hŷd.

II. Cerdd, ar DÔN Y FAMAETH.

Argraphwyd YNGHAERLLEON gan THO. HUXLEY, yn y Flwyddyn 1792.

CERDD *yn rhoi Hanes Geneth*, &c.

1. DOwch yn nês, gwrandewch ystori,
Fel y rhoed hi ar gân i thraethu
Hanes geneth wen lân oedran,
Aeth ymhell o'r 'wyllys allan.

2. 'Roedd y ganad liwgar lodes,
Ar ystât ei thâd yn aeres;
Cin i bod yn bum mlwydd oedran,
Marw wnaeth ei mam ei hunan.

3. Ai thâd anwyl cin hir ddyddie
Wrth ei Ffansi fe briodau;
Gorfu ar y burwen eneth
Fynd tan ddwylo mam ynghyfreth.

4. Honno roes ei pryd ai bwriad
Ar ystât iw mâb pan anad;
Ni chae eneth y lliw'r grisial
Fyth feddiannu mo'i chyfiawnder.

5. Dyfeisio rhyw ffordd i'w difetha,
A phace o *Bassengers* a'i newidia;
Yn ei lle cael corphun difri,
I dwyllo ei thâd ai ffrinds am dani.

6. Y rhain ai cymmerth i ffordd iw calyn
Ymhell iawn, ei holl gynefin;
A' oddi yno nhw ai gadawan
Mewn tre' fawr sydd twnti *Lundan*.

7. Yr oedd yno ddydd claddedigaeth,
Un o fraint y dre' neu ei ffeniaeth;
Yn y cowrt lle buase'r *Beggars*
Y caed y ganad liwgar lodes.

8. At eu meistar yr aed i ofyn,
Beth a wnaen i'r ffasiwn blentyn;
Oedd lân o bryd, a phropor Foddau,
Ai gwelediad uchel achau.

9. Yna'r ercha'r impin graslon,
Am ei dwyn i blâs y noson;

Galw am dani'r boreu i fynu,
I gael iddo olwg arni.
10. Er nad ydwi o'm hoed ond bachgen,
Heb na thâd na mam fy hunan,
Ag yno yr ercha'r impin propor,
I chadw yn tŷ ai rhoi yn'r ysgol.
11. Tros dair blynedd hi fu felly,
Pawb oedd yno i meistroli;
Propor brŷd gin wen lliw'r grisial,
A ffansiodd ei hanwyl feistar.
12, Oddi ar ei draed yr oedd e'n wastio,
Er alle'r holl Ddoctoriad iddo;
Heb ddweydyd dim beth oedd ei ddolur,
Na chael dim help na chwyn na chysur,
13. Ar ryw noswaith ymroi i yrru
Yn ddirgel iawn ei chwaer faeth atti;
Erchu dwad a'r ferch i fynu,
I'r rŵm lle'r oedd o ei hun yn cysgu.
14. Cynhygia iddi gant o bunneu,
Hi gae fynd i'r fan a fynne;
Ond cael ganthi'r gangen dirion
Fentro efo ag e i gysgu'r noson,
15. Y ferch yn ffettus iawn attebe,
" Aur nag arian byth ni chymra;
" Am fynd efo un mâb i gysgu,
" Tros roi f' einioes i derfynu."
16. Yn ei feddwl beth a ddigia,
Ag wrthi'n ferrig fe a dd'weda,
" Mi wn fod rhaid i chwi fodloni
" Ar fyrr ddyddiau fy mhriodi."
17. Yno attebodd gwen lliw'r hinon,
Tan ochneidio yn ddwysion ddigon,
" A fynnoch chwi fydd raid ei wneuthyd,
" Gwae fi erioed yr awr i'm ganwyd."
18. Yno fe aeth y siarad allan
Am yr eneth o liw'r hawddgan,

Propor bryd gin wên lliw'r grisial,
Yn wastio yn wastad wedd ei meistar.

19. Tranoeth fe aeth y gangen bropor
Y ganad lân ei hun i'r ysgol,
Fel yr oedd ei lwcc hi'n dwrstan,
Ar y ffordd cyfarfu fulan.

20. Hwnnw roed i ddwyn ei hoedal,
Rhag ofn yr ae'n gywelu i meistar;
Nid oedd e'n meddwl am gydwybod,
Ond cario o hyd y bŷd ei bechod.

21. Ag yno ymela'r cyfaill ffyrnig
Yn yr euraid wawr fonheddig;
A chin ei llusgo i le dirgel,
Pwy ddoe i chyfwrdd ond ei meistar,

22. Yn ufudd iawn gofynnodd iddi,
Pa beth oedd yn i geisio ganthi;
Ag yno syrthie a flaen ei meistar,
Er mwyn Duw, a ga i fy hoedel?

23. Yn ei dwylo yn gwit fe ymeula,
Ag ar ei thraed ei hun fe'i coda;
'Roedd o'n eirio mwy o'i chariad,
Nag a mynneu fo iddi niwad.

24. Ar ei thraed pan gafodd godi,
Wrth ei galon ymro ei gwasgu;
Fe roeseu lawer cynnig arni,
Erioed ni chawsau gusan ganthi.

25, Ag yno dyweda'r aer bendefig,
Wrth y feinir yn garedig,
Am ddweyd y gwir yr amser honno,
Os oedd dim 'wyllys ganthi am fentro.

26. Ag yno attebodd gwen lliw'r hinon,
Mi wnn a ffarabl ffettus ddigon;
Mae mentro wnae os oedd o'n leicio,
Tan obaith cael cydwybod gantho.

27 Ffals iw'r mâb a geisia hudo
Ferch trwy'r bŷd i'r siwrne honno;

Na fyddan barod i fod'oni,
Os byddeu raid roi hoedel trosti.

28. Ag yno'r ae a gwen lliw'r manod,
Wrth fynd adre at yr esgob ;
I briodi dwyael feinion,
Ni cheisiodd ond ychydig dystion.

29. Pawb trwy'r dre oedd yn rhyfeddu,
Ei bod mor ifangc yn priodi ;
Wrtho fo y dweyda lawer,
Y byddæu ei siwrne yn edifar.

30. Er ifienged oedd lliw'r hinon,
Fun naturiol, firiol seren ;
Rhoes ar fyrr hyspysrwydd iddo,
Y sutt a'r modd y daetha hi yno.

31. Ei choelio 'roedd, ond etto ammau,
Fod mor uchel waed ei iachau ;
Wrth ei hun yn gwitt fe yrra
I'r wlâd lle 'roedd ei thâd lythyra.

32. Ag yn y rhain roedd gofyn iddo
A oedd iddo ferch yn rhodio ;
Ei thâd anwyl yn brudd a yrra
Iddo attebion o i lythyra.

33. Nad oedd iddo ferch yn rhodio,
Ei bod hi foweth wedi ei phriddo ;
Fe ysgrifenna'r impin perffaith,
Atto ddwys lythyra eilwaith.

34. Ag yn y rhain 'roedd peri tyngu
Ei briodol wraig am dani ;
Ynddo ei hun fe syn gonsidra,
Fod achosion iddi amma.

35. Pan fae gŵr o'r ffasiwn honno
Yn gyrru'r fath lythyra atto,
Tynga fo ei wraig ai holl forwynion,
Tynga fo lawer o i gym'dogion.

36. Hên forwyn gynt ei mam a wydde,
A honno o honi ei hun addefe ;
Ag yno ymroes i fynd o ddifri
I godi *Geids* i chwilio am dani.

37. Wrth ymofyn cae fynd yno,
Er ei mwyn cael parch a chroeso
Gin ei anwyl fâb ynghyfreth,
A gweled maint oedd braint ei eneth.

38. Wrth ymadel nhwtha ofynna
Am gael un rhodd, ychwaith na fparia ;
Na chae blant ei mam ynghyfreth
Fyth feddiannu mo'i treftadeth.

39, Os bydd y Nuwies bêr yn leicio,
Ddyfod byth iw gwlâd i rodio,
Ar ol eich amfer chwi derfynu,
Ond am eich gwraig mi fynna ei llofgi.

40. Am roi y peth fy'n digwydd iddi,
Y mwya ai caro ei ffrins o'i deuty ;
Hanes hyn a roed ar ganiad,
Yn rhyfeddol fawr y fagad.

41. Tair-ar-ddeg yn brin o oedran,
Fun naturiol, firiol feren,
Oedd pan anwyd iddi eneth,
Trwy burder ferch a chariad perffeth.

42. *Ann* oedd bropra gair ei henw,
Fun naturiol, fwynedd feniw ;
Hanes hon fy'ar gân i thraethu,
Dyna hyfpyfrwydd clir am dani.

CERDD

## Dethre CERDD. ar DON y FAMAETH.

FEL roeddwn nosfwaith hwyr yn rhodio,
Gerddi gwrddion i'm cynffyrddio,
Uwch fy mhen clown fwyn Lamystan,
Yn oer ei neus, beredd fous, yn uchel ochan.
Nesu a wneythym yn 'wyllysgar
At fwyn ei Llais, a main ei Llafar;
Athan ufudd ofyn iddi,
Er mwyn Duw, 'r fwyna'n fyw, beth iw dy galedi?
Dyma ei Hatteb hi, a'i Hesguston,
Amal Gnoc a dyrr y Galon,
Unig ydwi ymmysg Adar, [mar,
Fy ngado i a wnaeth, yma'n gaeth, fy nghymwys gy-
Mae'n ddrwg geni, 'r Lamystan addfwyn,
Dy glywed di mor brudd yn achwyn,
Dwad i mi, 'rwi'n dymuno,
Y baunas wiw, deg off riw, bar liw sydd arno.
Y fi ydi'r unig un heb gymmar,
Y fo di bloda coed a gadar,
Ag am ei wddw yr eured glycha,
Lle bu'n faith, lawer gwaith, fy nwy fraich inna
Os dyna'r ffasiwn y sydd arno,
Nis gwn ba beth a ddweuda wrtho;
Pan adawa fo i Lamystyn, [alchen,
A mynd yn sytb, chwydir chwyth, i nyth fy Wi-
Fe aeth fy ngwalch yn falch oi foddion,
Tramwy mae at y fron fraith dirion;
Er pan droes o atta ei gefn,
Amal dro a rydd o lle bo fy Wialchen.
Gwilia goelio ffals athrodion,
Na chelwydda ofer ddynion;
Rhodied, eilied, aed lle myno,

*Gwn i fod, dan y rhod, i'th di etto.*
*Ow ba fodd y galla i goelio,*
*Fod fy ngwir walch yn fy nghoſio ;*
*Pan y dawa fi yma i ochan,*
*Yn afiach ai walch bach, yn byw dan fy adan.*
*O cymmer galon, paid a gwylo*
*Fe ddaw Haul at fronnydd etto ;*
*A phob amriw goea i ddeilio,*
*Gwn i yn ddu, ban ddel ha, daw gweilch i rodio.*
*Gochel fynd ond hynny i rodio,*
*Lle bo'r Gweilch yn mynych dario ;*
*Rhag i ti'r fwyn Edan dirion,*
*Fynd dan faeth cyflwr caeth, i fagu cowin.*
*Eden addfwyn, 'rydwi yn adde,*
*Y gwydde mod erioed iw rwyde ;*
*Pan i m tynna o'm caerog tirion,*
*I'r Coed lu, i fwrw mhlu, i derri nghalon.*
*Teg im dy areth, gaerog tirion,*
*Duw ro i ti fyd wrth fodd dy galon.*
*Er bod caſeion acw o ſyweth,*
*Teg ei grydd, na fydd brudd, o herwydd hireth.*
*[illegible] rhag angen iw dy gyngor,*
*[illegible] iw dilin gore hyd elor ;*
*Geill Duw unig, er daioni,*
*Er maint iw cas, yn glas, roi gras i 'mgroeſi.*
*Ffarwel Lamyſtan geinen gynar,*
*Gwſai ydyw goelio'r adar ;*
*Cymmer rybydd uſudd ofal,*
*Dan las wydd o garw a fydd o garu yn feddal.*
*Wel dywa derfyn hyn o hanes,*
*A goelio addewidion dylion diles ;*
*Er colli mwyndor gwell iw mendio,*
*Herwydd [illegible], fel y Fran, rhy fuan feio.*

UNIV. COLL. S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*TERFYN.*